Eich arweiniad i funeral care

Pethau i'ch helpu pan fyddwch yn trefnu angladd

Eich arweiniad i drefnu angladd

Diolch am feddwl am Funeralcare fel eich Cyfarwyddwr Angladdau. Gallwch yn awr ddibynnu ar arbenigrwydd a chyfleusterau un o Gyfarwyddwyr Angladdau mwyaf profiadol y DU.

Bydd Funeralcare, sy'n rhan o'r Co-operative Group, yn sicrhau eich bod yn cael eich gwasanaethu gan gwmni sy'n rhoi'r un pwyslais ar y gwerthoedd traddodiadol ac ar y dulliau mwyaf modern o weithio i ymateb i'ch holl anghenion.

Egwyddorion y Co-operative yw sylfaen Funeralcare. Mae gofalu am eraill a phwyslais ar y gymuned yn ganolog i bopeth yr ydym yn ei wneud.

Teyrnged unigryw i fywyd unigryw

Mae dewis angladd yn rhywbeth personol iawn. Dylai adlewyrchu eich dymuniadau chi a rhai'r person sydd wedi marw. Mae rhai pobl am gael angladd syml ac mae'n well gan eraill gael gwasanaeth mwy mawreddog.

Gall angladd ddathlu elfennau unigryw bywyd y person sydd wedi marw mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Gallai hyn fod yn gyffyrddiad bach fel canu hoff gân yr ymadawedig yn yr angladd, neu gallai fod yn thema i'r angladd cyfan fel diddordebau'r ymadawedig, er enghraifft, lliwiau eu hoff dîm.

Mae'r dewisiadau y byddwn yn hapus i'w trafod gyda chi'n cynnwys addurniadau'r arch, gwahanol leoliadau lle gellir cynnal y gwasanaeth ac opsiynau heblaw gwasanaeth crefyddol. Gallwn hefyd eich helpu i wneud yn siŵr bod pob agwedd o'r angladd, gan gynnwys y dewis o gerddoriaeth neu farddoniaeth, y man claddu neu lle gwasgerir y llwch a'r dewis o flodau, yn adlewyrchu bywyd yr ymadawedig.

Mae cynnwys elfennau personol yn yr angladd yn gyfle unigryw i ddathlu bywyd y person sydd wedi marw a byddwn yn treulio amser gyda chi i'ch helpu i wneud hyn.

Cynnwys

- Beth sydd angen ei wneud pan fydd person yn marw pg 3
- Dod â'r ymadawedig i'n gofal pg 4
- Cofrestru'r farwolaeth pg 4
- Trefnu angladd
  - Cyn yr angladd pg 5
  - Claddu neu amlosgi? pg 6
  - Eich dewisiadau pg 7
- Cost yr angladd pg 10
- Diwrnod yr angladd pg 10
- Ar ôl yr angladd pg 11
- Ar ôl amlosgi – eich dewisiadau pg 12
- Talu am yr angladd pg 14
- Y Cynllun Rhagdalu pg 15
- Datrys problemau pg 16
- Materion yr ymadawedig pg 16
- Cysylltiadau pg 17

Beth sydd angen ei wneud pan fydd person yn marw

Pan fydd rhywun yn marw gartref neu mewn cartref nyrsio

Ffoniwch y meddyg: Pan fydd person yn marw gartref, dylech gysylltu â meddyg yr ymadawedig yn gyntaf a fydd, os yn fodlon ag achos y farwolaeth, yn cyhoeddi Tystysgrif Feddygol sy'n nodi achos y farwolaeth. Mewn rhai achosion gellir gofyn i chi ei gasglu'r Dystysgrif o'r feddygfa. Mewn achos o farwolaeth mewn cartref nyrsio, dylai staff y cartref gysylltu â'r meddyg.

Cysylltu â ni: Dylech gysylltu â ni ar unwaith ar ôl hysbysu'r meddyg. Byddwn yn trefnu amser addas, ddydd neu nos, i ymweld â chi i drafod eich gofynion.

Pan fydd rhywun yn marw mewn ysbyty

Bydd y brif weinyddes nyrsio neu'r nyrs staff yn eich gweld os bydd person yn marw yn yr ysbyty. Byddant yn trefnu bod meddyg yn cyhoeddi Tystysgrif Feddygol. Bydd angen i chi gasglu'r dystysgrif ac unrhyw eiddo sy'n perthyn i'r ymadawedig.

Os bydd yr angladd ar ffurf amlosgiad, dylech roi gwybod i staff yr ysbyty.

Cysylltu â ni: Cysylltwch â'n cartref angladdau – byddwn yn trefnu amser addas, ddydd neu nos, i ymweld â chi i drafod trefniadau'r angladd ac i ddod â'r ymadawedig i'n gofal.

Pan fydd rhywun yn marw'n sydyn

Pan fydd rhywun yn marw'n annisgwyl, mae'n arferol hysbysu'r Crwner neu'r Procuradur Ffisgal. Mae nifer o resymau pam fod angen gwneud hyn, er enghraifft, bydd y Crwner neu'r Procuradur Ffisgal yn cael ei hysbysu bob amser mewn achos o farwolaeth annisgwyl, yn enwedig os nad oedd yr ymadawedig o dan ofal rheolaidd meddyg.

Cysylltu â ni: Cysylltwch â'n cartref angladdau cyn gynted â phosibl. Gallwn egluro'r trefniadau angenrheidiol a chysylltu â swyddfa'r Crwner neu'r Procuradur Ffisgal ar eich rhan.

Pan fydd rhywun yn marw i ffwrdd o'u cartref neu dramor

Pan fydd rhywun yn marw cryn bellter a'u cartref, un ai yn y DU neu dramor, cysylltwch â ni a gallwn wneud yr holl drefniadau angenrheidiol.

Dod â'r ymadawedig i'n gofal

Byddwn yn gofyn i chi ym mhle yr hoffech i'r ymadawedig orffwys cyn yr angladd. Gall hyn fod gartref neu yn ein cartref angladdau. Os byddwch yn dewis eich cartref, byddwn yn argymell eich bod yn caniatáu i ni ddod â'r ymadawedig i'n gofal, ac yna'i ddychwelyd atoch pan fydd yr holl baratoadau wedi'u cwblhau.

Cofrestru'r farwolaeth

Byddwn yn egluro'r trefniadau sydd ynghlwm wrth gofrestru marwolaeth.

Dylid cofrestru'r farwolaeth cyn yr angladd bob amser. Bydd perthynas i'r ymadawedig yn cofrestru'r farwolaeth fel arfer. Os nad oes perthynas ar gael, yna gall unrhyw berson a oedd yn bresennol ar adeg y farwolaeth ei chofrestru, deiliaid yr eiddo lle bu'r person farw, neu'r person sy'n derbyn y cyfrifoldeb dros drefnu'r angladd. Efallai y bydd angen trefnu apwyntiad gyda'r Cofrestrydd.

Os byddwch yn teimlo bod angen cefnogaeth arnoch gallwn drefnu bod rhywun yn mynd gyda chi i Swyddfa'r Cofrestrydd.

Beth fydd angen ei wybod ar y Cofrestrydd?

Bydd y Cofrestrydd angen y wybodaeth ganlynol am yr ymadawedig:

- Dyddiad a lle bu farw
- Eu henw llawn
- Dyddiad a man geni
- Eu galwedigaeth
- Cyfeiriad eu cartref
- Os oeddent yn derbyn pensiwn neu lwfans o gronfeydd cyhoeddus
- Os yn briod, dyddiad geni'r gŵr neu wraig sy'n fyw

Bydd angen y dogfennau canlynol hefyd ar y Cofrestrydd:

- Tystysgrif Feddygol sy'n rhoi achos y farwolaeth
- Cerdyn meddygol Gwasanaeth Iechyd Gwladol yr ymadawedig (os yw ar gael)
- Tystysgrif Geni'r ymadawedig
- Tystysgrif Priodas yr ymadawedig (os yn berthnasol)

Bydd y Cofrestrydd hefyd yn cyhoeddi tystysgrif werdd ar gyfer claddu neu amlosgi (tystysgrif wen i gofrestru marwolaeth yn yr Alban) y bydd ei hangen arnom cyn y gellir cynnal angladd. Mae copïau ardystiedig o'r cofnod o farwolaeth ar gael am dâl bychan - efallai y bydd angen y rhain i ddibenion cyfreithiol neu ariannol.

Os yw marwolaeth wedi ei chyfeirio at grwner, gall y broses gofrestru amrywio - byddwn yn eich cynghori ar sail yr amgylchiadau hynny.

Trefnu angladd

Bydd y wybodaeth y byddwn yn ei chael gennych wrth drefnu angladd yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol a'i chadw'n unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

Cyn yr angladd

Pwy fydd yn gwneud y trefniadau ar gyfer yr angladd?

Rhaid i'r person sy'n gwneud y trefniadau allu rhoi cyfarwyddiadau a gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â manylion yr angladd. Bydd y person hwn hefyd yn gyfrifol am drefnu taliad am yr angladd.

Yr hyn y gallwn ei gynnig

Byddwn yn gofalu am y trefniadau ymarferol, yn eich cynghori ynghylch yr opsiynau a'r dewisiadau ar gyfer yr angladd ac yn sicrhau bod y trefniadau'n cael eu gwneud yn unol â'ch dymuniadau chi a rhai'r person a fu farw.

Byddwn yn eich cynorthwyo i gwblhau'r holl ddogfennau angenrheidiol ac i wneud yr holl drefniadau â'r glerigiaeth, y fynwent neu amlosgfa, yn ôl y gofyn. Byddwch yn derbyn cadarnhad o'r holl drefniadau ynghyd ag amcangyfrif manwl o'r costau.

Gallwch wneud trefniadau ar gyfer yr angladd yn eich cartref, yn ein cartref angladdau neu mewn lleoliad arall, megis swyddfa Cyfreithiwr neu gartref ffrind.

Bydd angen i chi wneud trefniadau'n fuan ar gyfer y canlynol:

- A fydd yr angladd yn gladdedigaeth neu amlosgiad?
- Lle fydd yr angladd yn cael ei gynnal (mewn eglwys, capel amlosgfa, mynwent capel, ar lan y bedd, neu rywle arall)?

Byddwn wedyn yn cysylltu â phawb perthnasol i gytuno ar ddiwrnod, dyddiad ac amser ar gyfer y gwasanaeth, a fydd yn ateb eich gofynion chi.

Byddwn hefyd angen gwybod:

- Enw llawn, cyfeiriad ac oed yr ymadawedig
- Y lleoliad lle mae'r ymadawedig yn gorffwys
- Enw a manylion cyswllt meddyg yr ymadawedig
- A oes tystysgrif marwolaeth wedi'i chyhoeddi
- A fydd yr angladd yn seremoni grefyddol neu ddigrefydd (dyneiddiol)

Mae gennym brofiad o drefnu angladdau i bobl o bob crefydd a diwylliant ac o drefnu gwasanaethau dyneiddiol. Bydd angen manylion llawn o'ch dymuniadau ynghylch gwasanaethau gweinidog.

Claddu neu amlosgi?

Mae'r dewis rhwng claddu ac amlosgi'n un personol iawn a gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y penderfyniad, megis traddodiad teuluol, crefydd neu ddymuniadau'r person sydd wedi marw.

Claddu

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n dewis cael eu claddu'n cael eu claddu mewn mynwent. Yn amodol ar reoliadau lleol ac argaeledd, bydd gennych fel arfer ddewis rhwng bedd newydd neu sydd wedi'i agor eisoes.

Beddau sydd wedi'u hagor eisoes

Os oes bedd ar gael eisoes bydd angen i ni gael gweithredoedd y bedd neu ddogfennau sy'n ymwneud â'r bedd, a all fod yn eich meddiant. Gallwn eich helpu os nad yw'r gweithredoedd yn eich meddiant. Bydd angen i ni sicrhau bod lle ar gael ar gyfer claddedigaeth arall.

Beddau newydd

Wrth brynu bedd newydd, gall rhai awdurdodau ganiatáu i chi gadw neu brynu gofod wrth ymyl yr un sydd i gael ei defnyddio.

Ffioedd claddu

Gellir codi ffioedd am:

- brynu bedd newydd
- agor neu dyllu'r bedd
- tynnu neu newid cofeb sydd yno eisoes

Byddwn yn eich hysbysu o unrhyw ffioedd lleol sy'n debygol.

Claddedigaethau eraill

Mae opsiynau ar gael heblaw claddu mewn mynwent, megis claddedigaeth mewn claddgell, claddedigaeth ar y môr a chladdedigaeth mewn coedlan.

Dychweliad

Os yw'r angladd i gael ei gynnal dramor, gallwn wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar eich rhan.

Amlosgi

Gwasanaeth llawn neu wasanaeth claddedigaeth?
Mae'r rhan fwyaf o amlosgfeydd yn cynnwys capel i gynnal gwasanaethau. Fodd bynnag, efallai yr hoffech gynnal gwasanaeth mewn capel neu leoliad arall cyn y gwasanaeth yng nghapel yr amlosgfa. Beth bynnag fydd eich dewis gallwn wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar eich rhan.

Eich dewisiadau

Gall angladd ddathlu nodweddion unigryw o gymeriad y person sydd wedi marw mewn nifer o ffyrdd. Byddwn yn treulio amser gyda chi i drafod yr holl opsiynau sydd ar gael i wneud yr angladd yn wasanaeth mwy personol, er mwyn creu coffhad unigryw a theilwng.

Dewis yr arch

Gallwn gynnig amrywiaeth eang o eirch, o'r mwyaf syml i'r gwirioneddol fawreddog, sy'n addas ar gyfer claddedigaeth neu amlosgiad. Yr ydym yn deall y gall dewis arch fod yn brofiad dirdynnol i rai pobl, oni ni fyddai'n briodol i ni wneud y dewis hwnnw ar eich rhan.

Yr ydym wedi'n hyfforddi i ddelio mewn ffordd sensitif â'r agwedd hon o drefnu'r angladd ac yr ydym wrth law i ateb unrhyw gwestiynau neu ymholiadau a all fod gennych, i'ch helpu i wneud y dewis.

Ei wneud yn arbennig

Mae llawer o bobl mewn profedigaeth yn dwyn cysur mawr trwy roi eitemau personol, er enghraifft lluniau neu lythyrau, yn yr arch gyda'r ymadawedig. Ni ydym yn gosod cyfyngiadau ar yr hyn y gellir ei roi mewn arch pan fod yr ymadawedig yn eich gofal. Fodd bynnag, mae amlosgfeydd yn cyfyngu ar yr eitemau a ganiateir, er enghraifft ni chaniateir eitemau metel neu wydr. Os yn briodol, gallwn eich cynghori ar hyn.

Cludo'r arch

Yr ydym bob amser yn darparu hebryngwyr i gludo'r arch. Neu, gall yr hebryngwyr fod yn berthnasau, cyfeillion neu gydweithwyr y person sydd wedi marw.

Gwisgo'r ymadawedig

Efallai y byddwch yn dymuno bod yr ymadawedig yn cael ei wisgo yn ei ddillad ei hun, ac fel arfer bydd hyn yn ddigon derbyniol. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, yn enwedig os bydd yr ymadawedig yn cael ei amlosgi, mae'n ofynnol ein bod yn cydymffurfio â rheoliadau sy'n cyfyngu ar rai defnyddiau.

Os ydych yn ystyried darparu dillad ar gyfer yr ymadawedig, gofynnwch am eich cyngor. Gallwn ddarparu amrywiaeth eang o ynau, sy'n dderbyniol i'r awdurdodau perthnasol.

Ymweld â'r ymadawedig

Mae'r penderfyniad i ymweld â'r ymadawedig neu beidio yn un personol. Ni allwn eich cynghori ynghylch eich dewis, ond mae llawer o bobl yn cael cysur ar ôl gweld yr ymadawedig yn gorffwys.

Mae ystafelloedd coffa preifat ar gael yn ein cartrefi angladd neu efallai y byddai'n well gennych i'r ymadawedig orffwys gartref. Byddwn yn hapus i drafod y trefniadau gyda chi.

Yn yr ystafell goffa, bydd croeso i chi arddangos llun neu ddetholiad bychan o eitemau personol sy'n cyfleu diddordebau neu hobi'r ymadawedig. Mae llawer o deuluoedd wedi dweud wrthym fod hyn wedi helpu i wneud yr agwedd hon o'r angladd yn fwy personol iddynt.

Trafnidiaeth

Bydd angen i chi ystyried y canlynol:

- A fyddai'n well gennych hers fodur neu un sy'n cael ei thynnu gan geffyl? Efallai y bydd angen hers flodau hefyd i gludo'r blodau.
- Sawl limousine fydd eu hangen (gall y rhan fwyaf gludo chwech o bobl)
- Lle fydd y cynhebrwng yn cychwyn?
- A fydd yn dilyn llwybr arbennig?
- I ble fydd yn dychwelyd?
- A fydd angen mynediad i gadair olwyn arnoch?

Cerddoriaeth

Mae llawer o bobl yn gofyn am i ddarnau arbennig o gerddoriaeth gael eu canu yn ystod y gwasanaeth. Mae hwn yn gyfle i ychwanegu cyffyrddiad personol arall. Gall y gerddoriaeth a ddewisir fod yn unrhyw beth o gerddoriaeth organ draddodiadol i gerddoriaeth ar dâp neu CD sy'n cael ei darparu gennych chi. Efallai y bydd rhai cyfyngiadau, a bydd hyn yn dibynnu ar leoliad y gwasanaeth. Byddwn yn hapus i'ch cynghori ar y mater.

Teyrnged

Mae'n bosibl y bydd cyfaill neu berthynas yn dymuno dweud gair neu ddau yn ystod y gwasanaeth am y person sydd wedi marw - gelwir hyn yn deyrnged. Gallwch baratoi un eich hun, neu gall fod ar ffurf hoff gerdd neu ddarlleniad arall.

Hysbysiad coffa yn y wasg

Mae hysbysiad o'r fath yn gyfle nid yn unig i gyhoeddi'r farwolaeth a manylion yr angladd yn gyhoeddus, ond mae hefyd yn gyfle i dalu teyrnged i'r ymadawedig, er enghraifft, trwy gynnwys pennill, Hefyd, gellir cynnwys manylion ynghylch lle i anfon rhoddion neu flodau.

Gellir cyhoeddi hysbysiad o'r fath mewn papur newydd lleol neu genedlaethol. Hefyd, efallai y byddwch yn dymuno rhoi hysbysiad mewn papur newydd lleol arall, os bu'r ymadawedig yn byw mewn tref neu ddinas arall am gyfnod.

Byddwn yn hapus i lunio a threfnu hysbysiadau o'r fath ar eich rhan.

Blodau

Mae blodau'n ffordd syml a hardd o dalu teyrnged bersonol. Gallwn eich helpu i ddewis blodau a rhoi cyngor ar archebion arbennig. Mae llyfryn ar gael i'ch helpu i benderfynu. Pan fyddwch yn archebu blodau, fe'ch cynghorir i roi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn dilyn yr angladd, bydd llawer yn penderfynu cyfrannu blodau addas er budd eraill, megis ysbyty, cartref nyrsio neu sefydliad arall (os byddant hwy'n dymuno eu derbyn). Byddwn yn hapus i drefnu hyn ar eich rhan.

Byddwn yn paratoi rhestr ar eich cyfer o bawb sydd wedi anfon blodau. Efallai yr hoffech hefyd i'r cardiau sydd ynghlwm wrth y blodau gael eu dychwelyd i chi i'w cadw i gofio. Byddwn yn hapus i drefnu hyn ar eich rhan.

Rhoddion

Mae llawer o deuluoedd yn dewis cyfyngu ar y blodau a roddir i'r teulu agos yn unig ac y gofyn am roddion i elusen neu sefydliad arall yn lle blodau.

Arlwyo

Efallai y byddwch am gynnig lluniaeth i'r gwesteion ar ôl yr angladd. Bydd angen i chi benderfynu ar: nifer y gwesteion i'w gwahodd, lle i'w gynnal a pha fath o fwyd a diod fydd ar gael.

Ar ôl i chi wneud y penderfyniadau hyn, byddwn yn hapus i wneud y trefniadau ar eich rhan.

Argraffu trefn y gwasanaeth

Bydd llawer o bobl yn dewis argraffu trefn y gwasanaeth. Byddwn yn hapus i'ch cynghori ar ddiwyg a chynnwys y rhain a threfnu i'w hargraffu ar eich rhan.

Cost yr angladd

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewisiadau, byddwn yn paratoi amcangyfrif o'r gost ar eich cyfer. Os byddwch, ar yr adeg yma, yn penderfynu newid unrhyw beth gallwn eich helpu i wneud hynny. Gall unrhyw newidiadau y byddwch yn eu gwneud effeithio ar gost yr angladd.

Mae cost yr angladd yn cynnwys y canlynol:

- Gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys cyngor a chefnogaeth briodol, cysylltu â thrydydd parti a'r personél sydd ei angen i drefnu'r angladd
- Costau atodol gan gynnwys cludo'r ymadawedig i'n gofal, cyflwyno'r ymadawedig a darparu hers
- Cost yr arch
- Costau ychwanegol, gan gynnwys ceir, milltiroedd ychwanegol ac arch amlosgi
- Taliadau a wneir ar eich rhan, a elwir yn dreuliau. Mae'r rhain yn cynnwys ffi'r meddyg, ffi'r gweinidog, ffi amlosgi ayb.

Os bydd angen gwasanaethau eraill arnoch neu os byddwch angen cyngor pellach, cofiwch ofyn.

Byddwn yn cysylltu â chi cyn yr angladd i gadarnhau'r holl fanylion ac i ateb unrhyw gwestiynau munud olaf a all fod gennych. Fodd bynnag, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â ni unrhyw bryd os bydd angen cymorth arnoch.

Ar ddiwrnod yr angladd

Gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwn yn gofalu am bopeth ar ddiwrnod yr angladd. Byddwn yn gwneud yn siŵr bod yr angladd yn dechrau ar amser, mewn modd priodol ac urddasol, yn gyfreithlon a chyda pharch at arferion crefyddol a lleol ac yn unol â'ch disgwyliadau.

Ar ôl yr angladd

Byddwn yn cysylltu â chi ar ôl yr angladd i wneud yn siŵr eich bod yn hapus â'r holl wasanaethau a ddarparwyd gennym.

Hysbysiadau cydnabod

Mae hysbysiadau cydnabod a gyhoeddir mewn papur newydd lleol neu genedlaethol yn gyfle i berthnasau'r ymadawedig ddiolch yn gyhoeddus i'r bobl sy'n wedi rhoi cefnogaeth neu gymorth iddynt. Byddwn yn hapus i'ch cynorthwyo i lunio'r hysbysiad hwn a'i roi yn y papur newydd priodol.

Gwaith maen coffaol

Mae gwaith maen coffaol ar gael mewn sawl ffurf. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am yr holl opsiynau sydd ar gael ac yn eich cynghori ar reoliadau'ch mynwent neu amlosgfa leol.

Gallwn gynnig dewis eang o gofebau carreg. Mae llyfryn ar gael sy'n gyfle i chi weld y dewisiadau. Mae rhai o'r opsiynau y gallech eu dewis yn cynnwys:

- Lliw
- Siâp
- Arddull a lliw'r llythrennau
- Geiriad
- Math o garreg, gwenithfaen neu farmor, er enghraifft
- Cynnwys dyluniad neu ffotograff arno

Yn achos cofebau sy'n bodoli eisoes gallwch ychwanegu arysgrif newydd, ail-lythrennu neu eu glanhau.

Cofebau eraill

Byddwn yn falch i roi gwybod i chi am y dulliau eraill o goffau y gallech eu hystyried, megis plannu coeden neu noddi mainc goffa.

Ar ôl amlosgi – eich dewisiadau

Pan fyddwch yn trefnu angladd, efallai nad oeddech yn gwbl sicr ynghylch man gorffwys terfynol i lwch yr ymadawedig. Efallai y byddwch am wneud trefniadau olaf yn awr neu ganiatáu mwy o amser i benderfynu. Mae nifer o opsiynau a dewisiadau ar gael a byddwn yn hapus i drafod pob posibiliad, eich cynghori am y rheoliadau lleol a'r costau a fydd ynghlwm wrth eich dewis. Bydd ein saer maen yn hapus i gynghori ac i roi amcan bris ar gyfer unrhyw gofeb sy'n mynd â'ch bryd.

Beth allaf ei wneud â'r llwch?

Gellir gwasgaru, claddu neu gadw llwch. Byddem yn eich cynghori i gymryd amser i ystyried pob opsiwn yn ofalus.

Gwasgaru llwch

Gall hyn ddigwydd:

- Ar dir yr amlosgfa
- Ar fedd teuluol
- Yn eich gardd
- Mewn man ag atgofion melys
- Mewn coetir neu rostir
- Ar y môr
- Mewn gwlad dramor

Mewn rhai achosion, bydd angen caniatâd yr awdurdod priodol.

Claddu llwch

Gellir claddu llwch am nifer o resymau, Er enghraifft, gall teuluoedd ymweld â'r fan lle claddwyd y llwch, gallant godi cofeb yno, neu gellir claddu llwch mwy nag un aelod o'r teulu gyda'i gilydd. Byddwn yn hapus i'ch cynghori ar gist neu wrn addas ac unrhyw gofeb yr hoffech ei chael.

Gallwch hefyd gladdu llwch:

- Yn nhir amlosgfa
- Mewn mynwent
- Mewn bedd
- Yn eich gardd

Ym mhob achos, bydd angen caniatâd yr awdurdod priodol. Byddwn yn hapus i sicrhau caniatâd ar eich rhan.

Pan fydd llwch yn cael ei wasgaru neu ei gladdu mewn mynwent neu amlosgfa wahanol, bydd angen sicrhau caniatâd yr awdurdod priodol ac efallai y bydd yr awdurdod angen Tystysgrif Amlosgi a ddarperir gan yr amlosgfa.

Cadw'r llwch

Mae'n well gan rai pobl gadw'r llwch:

- Gartref mewn blwch wedi'i gynllunio'n unswydd i'r pwrpas hwnnw. Mewn rhai achosion pan fydd y gŵr neu'r wraig neu bartner yn marw, gellir gwasgaru neu gladdu gweddillion y ddau gyda'i gilydd.
- Bydd rhai yn dewis rhoi ychydig o'r llwch mewn tlws, er enghraifft loced wedi'i chynllunio'n bwrpasol.

Bydd ein staff yn hapus i drafod pob opsiwn gyda chi. Yr ydym am i chi wneud y penderfyniad gorau i chi a'ch teulu, boed hynny'n golygu gwasgaru'r llwch neu ei roi mewn bedd gyda chofeb bwrpasol. Os hoffech gael manylion am gofebau neu fannau gorffwys nad ydynt wedi eu crybwyll gennym yma, byddwn yn hapus i'ch helpu mewn unrhyw ffordd y gallwn.

Nid oes rhaid i chi wneud penderfyniad ar unwaith. Bydd rhai amlosgfeydd yn barod i gadw'r llwch am gyfnod penodedig, am dâl bychan. Byddwn ni'n hapus i gadw'r llwch, heb godi tâl, am hyd at dri mis ar ôl yr angladd. Mae'n ddrwg gennym ond nid oes gennym gyfleusterau i'w cadw am gyfnod amhenodol.

Talu am yr angladd

Byddwch yn derbyn anfoneb o fewn 14 diwrnod ar ôl yr angladd. Os oes rhan o'r anfoneb nad ydych yn ei deall neu'n anghytuno â hi, cysylltwch â'n cartref angladdau a byddant yn hapus i'ch helpu.

Gallwch dalu'r anfoneb yn ein cartref angladdau'n bersonol neu mewn unrhyw fanc neu swyddfa bost, neu trwy'r post. Gallwch hefyd dalu ag arian parod, â siec neu â cherdyn debyd neu gredyd. Os hoffech i'r anfoneb gael ei hanfon at gyfreithiwr, dylech roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl er mwyn i ni allu anfon unrhyw ohebiaeth atynt.

Holiadur

Er ein bod yn sylweddoli bod yr wythnosau cyntaf ar ôl yr angladd yn amser anodd dros ben, yr ydym yn ymdrechu'n barhaus i wella lefel y gwasanaeth a ddarperir gennym. Byddwn felly'n cynnwys holiadur gyda'r anfoneb ac os ydych yn teimlo eich bod yn gallu ei chwblhau, byddem yn gwerthfawrogi eich sylwadau ar y gwasanaeth a ddarparwyd gennym.

Talu'r costau

Os nad ydych yn credu y gallwch dalu costau'r angladd, dylech drafod hyn gyda ni cyn gynted â phosibl. Mae gennym wybodaeth am bwy all fod yn gymwys i dderbyn arian o'r Gronfa Gymdeithasol a sut mae gwneud cais. Dim ond yr Adran Nawdd Cymdeithasol all awdurdodi hyn a hwy hefyd fydd yn penderfynu ar faint y taliad. Os nad ydych yn gymwys i dderbyn taliad, gallwn eich cynghori ar fathau eraill o gymorth. Cofiwch mai chi'n bersonol sy'n atebol am unrhyw swm dros ben y taliad y cytunwyd arno gan yr Adran Nawdd Cymdeithasol.

Y Cynllun Rhagdalu

Mae ein Cynllun Rhagdalu'n ffordd syml o dalu cost eich angladd ymlaen llawn, ac ar yr un pryd sicrhau bod eich dymuniadau personol yn cael eu parchu i'r manylyn lleiaf.

Cynllunio ariannol

Gellir dewis o blith tri phecyn amlosgi cynhwysfawr, sy'n caniatáu i chi dalu prisiau heddiw am eich angladd. Yna pan ddaw'r amser, bydd eich dymuniadau'n cael eu dilyn ar eich rhan, a hynny am y gost wreiddiol heb orfod poeni am unrhyw gynnydd a all fod wedi digwydd yn y cyfamser o ganlyniad i chwyddiant.

Gwneud y cynllun yn un personol

Neu, gallwch ddewis cynllun Rhagdalu personol y gellir ei addasu i ateb eich anghenion personol eich hun. Beth bynnag fo'ch dewis, boed gladdu neu amlosgi, pa eglwys neu ddarn o gerddoriaeth yr hoffech eu cael, neu a hoffech gael cyffyrddiadau bach ychwanegol fel rhyddhau colomennod neu gladdedigaeth mewn coedlan, gall ein Cynllun Rhagdalu ofalu am bob un o'r rhain.

Gall cynllunio angladd ymlaen llaw hefyd ysgafnhau'r baich emosiynol ac ariannol ar eich teulu. Nid oes unrhyw gostau cudd ychwanegol, nid oes angen archwiliad meddygol ac nid oes cyfyngiadau ar oed.

Os hoffech gael gwybod mwy am drefnu eich angladd ymlaen llaw, cysylltwch â'n cartref angladdau, neu os hoffech i ni anfon pecyn gwybodaeth atoch, ffoniwch ni am ddim ar 0800 289 120.

Datrys problemau

Yr ydym yn ymdrechu i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf ar bob achlysur, Os, ydych, fodd bynnag, yn anhapus ag unrhyw agwedd o'n gwasanaeth, mae gennym drefn syml i helpu i ddatrys y mater. Cysylltwch â'n cartref angladdau neu ein Hadran Gwasanaeth Cleientiaid (Ffôn: 0161 772 6125); byddant yn hapus i drafod unrhyw gŵyn neu bryder sydd gennych.

Materion yr ymadawedig

Rhoddir rhestr isod o'r pethau y bydd angen i chi eu hystyried:

Cyfrifon gyda: Banciau, Cymdeithasau Adeiladu, y Swyddfa Post, Bondiau Premiwm, Cymdeithas y Co-op.

Taliadau a wneir gan: Polisïau yswiriant, cytundebau rhent a hur bwrcas, archebion sefydlog, cardiau credyd.

Newid enw'r person sy'n gyfrifol am y canlynol: trydan, nwy, ffôn, car, yswiriant car, yswiriant cartref, trwydded deledu ayb.

Bydd angen hysbysu'r canlynol o'r farwolaeth: Cyflogwr, y Swyddfa Dreth, Swyddfa Basport, Adran Pensiynau, cymdeithasau proffesiynol, clybiau a sefydliadau lleol, trwydded yrru - DVLA Abertawe, meddyg teulu, athro plentyn (os oes rhiant, brawd neu chwaer wedi marw), yr Adran Nawdd Cymdeithasol – i ddychwelyd unrhyw offer neu ganslo gwasanaethau, yr ysbyty i ganslo unrhyw apwyntiadau.

Newid mewn amgylchiadau: Bydd amgylchiadau gweddill aelodau'r teulu wedi newid yn awr ac mae'n bosibl y bydd gwahanol grantiau a lwfansau ar gael iddynt gan y wladwriaeth, e.e. cymorth tuag at gostau'r angladd, ad-daliadau rhent / y dreth gyngor, pensiwn gweddw, ayb. Bydd Neuadd y Dref, Cyngor ar Bopeth neu Swyddfa'r Adran Nawdd Cymdeithasol yn falch o'ch helpu.

Rhoi'r gorau i bost nad oes ei eisiau arnoch: Yr ydym yn gweithio gyda sefydliadau i sicrhau bod enw'r ymadawedig yn cael ei dynnu oddi ar gronfeydd data a ffeiliau postio. Gofynnwch i aelod o'n staff am fanylion.

Cysylltiadau

Gwefan

www.co-operativefuneralcare.co.uk

Adran Gwasanaeth Cleientiaid

Ffôn: 0161 772 6125
E-bost: funeralcare.customerservice@letsco-operate.com

Ymholiadau ynghylch y Cynllun Rhagdalu

Ffôn: 0800 289 120

Yr Adran Nawdd Cymdeithasol / Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Ffôn: 020 7712 2171
Gwefan: www.dwp.gov.uk

Cruse – Gofal Mewn Galar

Ffôn: 020 8940 4818
Gwefan: www.crusebereavementcare.org.uk

National Association of Funeral Directors (NAFD)

Ffôn: 0845 230 1343
Gwefan: www.nafd.org.uk

Funeralcare yw nod masnachu'r Co-operative Group Limited.
Co-operative Group Limited, New Century House, Manceinion M60 4ES. Rhif cofrestredig 525R.

©
Co-operative Group Limited 2002 cedwir pob hawl.